# UNDEB 2026 CYMANFA DWYRAIN MORGANNWG

UNDEB BEDYDDWYR CYMRU · BAPTIST UNION OF WALES

UBC · BUW




THEMA · THEME

*'Rhodiwch Mewn Cariad'*

Effesiaid 5:2

**MEHEFIN 18–21, 2026 · CAERDYDD · TABERNACL**

## DYDD IAU — 18 MEHEFIN 2026

| | |
|---|---|
| 9:30–10:00 | Cofrestru · Te a Choffi |
| 10:00–10:05 | Croeso gan y Tabernacl |
| 10:05–10:30 | Addoliad Agoriadol<br>*O dan ofal Eglwys Tonyfelin* |
| 10:30–11:15 | Eisteddiad Cyntaf y Gynhadledd<br>*Cofnodion · Adroddiad Blynyddol · Cyfrifon · Adroddiad y Gorfforaeth* |
| 11:15–11:45 | Te a Choffi |
| 11:45–12:45 | Ail Eisteddiad yr Undeb |
| 12:45–2:00 | Cinio |
| 2:00–4:30 | Sesiwn Cenhadol<br>*O dan ofal y Parchedig Simeon Baker · (gydag egwyl am baned)* |
| 4:30–5:00 | Cyflwyno a Chroesawu Cynrychiolwyr Enwadau a Sefydliadau eraill |
| 5:00–7:00 | Te Croeso — Gwesty'r Marriott |
| 7:00 yh | Oedfa'r Weinidogaeth<br>*Pregethwyr gwadd: y Parchedig Rhys Llwyd & y Parchedig Hannah Smethurst* |

## DYDD GWENER — 19 MEHEFIN 2026

| | |
|---|---|
| 9:30–10:00 | Addoliad / Astudiaeth Feiblaidd<br>*O dan ofal Eglwys Blaen-y-Cwm* |
| 10:00–10:30 | Mudiad y Chwiorydd |
| 10:30–11:00 | Te a Choffi |
| 11:00–11:30 | Teithio i Goleg y Bedyddwyr |
| 11:30–12:30 | Sgwrs yng Ngholeg y Bedyddwyr<br>*Help! Beth allai'r Coleg ei wneud i helpu ein heglwys i gyrraedd ein cymuned?* |
| 1:00–2:00 | Cinio yn y Coleg<br>*A theithiau tywys o gwmpas y Coleg* |
| 2:00–2:30 | Teithio yn ôl i'r Tabernacl |
| 2:30–3:30 | Darlith y Gymdeithas Heddwch<br>*Dr Siân Rhiannon — 'Pererinion heddwch: menywod Cymru dros fyd di-ryfel yn y 1920au a'r 1930au'* |
| 3:30–4:00 | Te a Choffi |
| 4:00–5:30 | Llwybrau Newydd<br>*O dan ofal Mrs Paula Hughes, Mrs Lynne Lewis & y Parchedig Ddr Rosa Hunt* |
| 5:30–7:00 | Hwyrbryd |
| 7:00 yh | Oedfa'r Llywydd |

## DYDD SADWRN — 20 MEHEFIN 2026

| | |
|---|---|
| 10:00–12:00 | Pererindod Heddwch<br>*Taith o gwmpas Caerdydd* |

## DYDD SUL — 21 MEHEFIN 2026

| | |
|---|---|
| 10:30 | Oedfa Gymun Undebol Eglwysi Cymraeg Caerdydd<br>*Pregethwr gwadd: y Parchedig Owain Llyr* |

## TREFN OEDFA'R WEINIDOGAETH

*Dydd Iau, 7:00 yr hwyr · Organydd: Marc Jon Williams · Llywydd: Parchg Rob Nicholls*

| | |
|---|---|
| **Croeso a gweddi agoriadol** | Parchg Denzil John |
| **Croesawu Gweinidogion newydd & coffau'r ymadawedig** | Parchg Simeon Baker, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC |
| **Darlleniad 1 – Actau 17:16–34** | Mr Bill Davies |
| **Anerchiad Rhan I** | Parchg Hannah Smethurst |
| **Darlleniad 2 – Salm 145:8–18** | Mr Gwenallt Rees |
| **Anerchiad Rhan II** | Parchg Rhys Llwyd |
| **Gweddi** | Parchg Casi Jones, Emaus |
| **Y Fendith** | Parchg Peter Dewi Richards |

## TREFN OEDFA'R LLYWYDD

*Dydd Gwener, 7:00 yr hwyr · Organydd: Euros Rhys Evans · Llywydd: Parchg Rob Nicholls*

> *"Byddwch gan hynny ddilynwyr Duw, fel plant annwyl; a rhodiwch mewn cariad, megis y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd."*
> Effesiaid 5:1–2

| | |
|---|---|
| **Darlleniad** | Parchg Siân Elin Tomos |
| **Neilltuo'r Llywydd Newydd** | Parchg Simeon Baker, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC |
| **Gweddi'r Neilltuo (arddodi dwylo)** | Rhys ab Owen |
| **Darlleniad – Rhufeiniaid 8:31–39** | Parchg Paul Smethurst |
| **Anerchiad y Llywydd** | Parchg Ddr Rosa Hunt |
| **Gweddi** | Parchg Deb Stammers / Parchg Natalie Morgan |
| **Y Fendith** | Parchg Geraint Morse (cyn-lywydd) |

# LLYWYDDION Y TABERNACL

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi ymweld â Tabernacl, Caerdydd yn fwy aml na unrhyw gapel arall. Hyd y gwn i, Parch. Ddr. Rosa Hunt yw'r ugeinfed Llywydd sy wedi bod yn aelod yn y Tabernacl. Nid cofnod hanesydd sydd yma ond efallai y bydd o ddiddordeb i Undebwyr 2026. Hyd y gwelaf i, mae dau enw amlwg yn eisiau o'r rhestr. Heb os, y byddai'r Parch. Raymond Williams a'r Parch. Ddr. Hugh Mathews wedi bod yn Llywyddion ond bu farw Raymond yn gynamserol ac fe wnaeth Hugh yn glir nad oedd yn dymuno'r llywyddiaeth.

## 1. Parch. Nathaniel Thomas, 1867

Y brodor o Glydach oedd Llywydd cyntaf ein henwad tra'n weinidog yn y Tabernacl. Wedi cyfnodau yng Ngilfowyr a Chaerfyrddin, buodd yn weinidog yng Nghaerdydd rhwng 1856 tan ei farwolaeth yn 1887. Cymeriad cryf a disgyblwyr llym oedd Nathaniel a'i wraig Laura, a oedd yn Saesnes o dras bonedd. Roeddent yn ddirwestwyr cynnar ac yn fuan yn ei weinidogaeth fe lwyddodd i basio nad oedd tafarnwyr yn gallu cael eu derbyn fel aelodau ond i beidio diaelodi'r tafarnwyr oedd yn aelodau ar y pryd. Tipyn o newid byd wrth ystyried i'r Tabernacl cael ei sefydlu yn nhafarn y Star and Garter yn 1813. Yn ystod ei weinidogaeth fe gafodd ef a'i wraig eu ffeindio yn euog o herwgipio Iddewes ifanc. Fe gynigodd ei ymddiswyddiad ond gwrthod gwnaeth yr eglwys gan weld y weithred fel un o gariad at berson mewn angen. Fe lwyddodd y ddau yn eu hapêl i'r Uchel Lys. Digon Seisnigaidd oedd gweinidogaeth Nathaniel a Laura yn y Tabernacl ac yn wahanol i eglwysi eraill Dwyrain Morgannwg fe ddaeth y Tabernacl yn fwy Cymreigaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg o dan weinidogaeth y Parch. Charles Davies.

## 2. Owen Lewis, 1883

Un o gapel hanesyddol Blaenwaun oedd Owen Lewis a'i hen dad-cu oedd adeiladydd y capel hwnnw. Fe symudodd i Gaerdydd yn 1849 i weithio fel adeiladydd gan ymaelodi yn y Tabernacl. Roedd yn gyfaill annwyl i weinidog y Tabernacl ar y pryd sef y Parch. David Jones. Tra yn y Tabernacl fe oedd llyfrgellydd yr eglwys ac yn llywydd yr Ysgol Sul. Ef oedd perchennog y Royal Oak ar St Mary's St ac yna'r Albion ar Cowbridge Rd. Roedd yn cynnal nosweithiau'r Cymreigyddion yno ac yn ôl pob tebyg, roedd yn hael ei letygarwch i feirdd, llenorion a gweinidogion. Fe symudodd i Lundain yn 1864 gan ymaelodi yng nghapel Castle St. Ef oedd pensaer yr adeilad unigryw sy'n gartref o hyd i anghydffurfwyr Cymraeg canol Llundain.

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## 3. Alfred Thomas ( Arglwydd Pontypridd), 1886

Ganed ym Mhenylan yng Nghaerdydd ac fe fagwyd yn y Tabernacl gan wasanaethu fel diacon am 44 o flynyddoedd. Bu'n Gynghorydd ac yn Faer Caerdydd cyn ei ethol yn Aelod Seneddol am 25 o flynyddoedd. Yn San Steffan, bu'n hybu ymreolaeth i Gymru a sefydlu sefydliadau Cymreig. Ef oedd Llywydd cyntaf yr Amgueddfa Genedlaethol. Wedi ei ymddeoliad fe'i dyrchafwyd i'r Tŷ'r Arglwyddi, yr anghydffurfiwr cyntaf i ddal y swyddogaeth hynny. I'w weinidog y Parch. Charles Davies dim ond un Arglwydd oedd ac fel cyfaddawd byddai yn ei gyfarch fel y brawd yr Arglwydd Pontypridd. Pwyslais ar y brawd gan lithro'n sydyn dros yr Arglwydd!

## 4. Parch. Charles Davies 1899

Yn un o Lwynhendy, bu'n gweinidogaethu ym Mangor a Lerpwl cyn derbyn yr alwad i'r Tabernacl yn 1888 gan wasanaethu tan ei farwolaeth yn 1927. Yn wahanol i'w rhagflaenydd yn y Tabernacl, fe'i cofnodir fel person mwyn iawn a oedd yn llawn hiwmor.  Roedd yn gefnogwr brwd i'r diwygiad yn 1904-05, ac fe nododd bod dros 700 o bobl wedi proffesu ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu yn y Tabernacl yn ystod y misoedd rhyfeddol hynny. Gosodwyd y ffenestri lliw hardd yn y Tabernacl er cof amdano yn 1928.

## 5. Parch. Ddr. William Edwards, 1906 Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, 1911

Fe ymaelododd yn y Tabernacl wedi iddo symud Coleg y Bedyddwyr o Bont-y-pŵl i Gaerdydd yn 1893. Roedd yn flaenllaw yn sefydlu Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd a thrwy ei ymdrechion ef symudodd Coleg y Bedyddwyr i Gaerdydd. Ef oedd Pennaeth y Coleg o 1880-1925 a bu farw yn 1929. Ei brif waith cyhoeddedig oedd ei gyfieithiad o'r Testament Newydd gyda nodiadau. Mae ei gyfieithiad ar gael yn electronig ar ap a gwefan Cymdeithas y Beibl.  Mae ei gyfieithiad i'r Saesneg o *Dyma gariad* wedi ei gynnwys mewn amryw o gasgliadau.

## 6. Evan Owen, 1916

Wedi marwolaeth ei Dad, symudodd Evan Owen o Sir Benfro i Aberaman yn ddeg oed i weithio yn y gwaith haearn yno. Fe'i magwyd yng nghapel Gwawr gan ddod yn Ysgrifennydd yr eglwys yno. Fe ddaeth yn arweinydd cyhoeddus blaenllaw yng Nghymru gan wasanaethu ar Gyngor Caerdydd, Bwrdd Prifysgol Cymru, Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac Ysgrifennydd Coleg y Bedyddwyr. Roedd hefyd yn lais cryf dros hawliau gweithwyr diwydiannol de Cymru. Wedi ei apwyntiad i fod yn Ysgrifennydd Cymdeithas Ddarbodol y Mwynwyr fe symudodd i Gaerdydd gan ymaelodi yn y Tabernacl. Fe'i hetholwyd yn ddiacon yn sŵn y diwygiad yn 1904 gan wasanaethu hyd ei farwolaeth.

## 7. Parch. J. M Davies, 1924

Dilynodd William Edwards fel Prifathro Coleg y Bedyddwyr yn 1925. Wedi ei fagu yn Moreia, Dowlais ni chafodd cylch eglwysig erioed gan iddo gael ei apwyntio yn athro yng Ngholeg y Bedyddwyr ym Mhont-y-pŵl yn 23 mlwydd oed yn 1885 gan ymaelodi yn y Tabernacl yn 1893. Roedd yn academydd wrth reddf a gwelodd gwaith gweinyddol Prifathro yn ymyrryd a'i briod waith. Eithriadol o fyr bu ei gyfnod fel Prifathro gan bu farw yn sedd fawr y Tabernacl yn 1928 yn syth wedi iddo siarad o blaid sefydlu Trysorfa Gynhaliol ar gyfer Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr. Nid oedd yn un o'r siaradwyr penodedig ond o barch i'w swydd dyma'r Parch. J. Williams Hughes yn galw arno i annerch y gynulleidfa. Disgrifiodd Williams Hughes ei anerchiad fel un 'godidog'. Dywedodd Dr. M. E. Aubrey, Ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr *"I never heard him speak so eloquently."* Wrth i Williams Hughes ddiolch iddo bu farw'r Prifathro annwyl yn ei gadair.

## 8. Parch. Morgan D. Jones, 1938

Fe'i bedyddiwyd yn y Tabernacl gan y Parch. Charles Davies ac yno y dechreuodd bregethu. Tra'n fyfyriwr ym Mangor, mae sôn mai ef a daeth y diwygiad i'r gogledd ym Medi 1904. Bu'n weinidog am bron i ddeugain mlynedd yn ardal Hen Dŷ Gwyn ar Daf a daeth 'Morgan Jones, Whitland' yn un o bregethwyr amlycaf y Bedyddwyr. Mae ei emyn *Hosanna fyth! Mae gennyf Frawd* wedi ei gynnwys yng Nghaneuon Ffydd. Mab yng nghyfraith iddo oedd y Parch. W. P. John, Castle St.

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## 9. Parch. John Griffiths, 1944

Un o ogledd Cymru oedd yn wreiddiol ac fe apwyntiwyd yn bennaeth Coleg y Bedyddwyr yn 1943. Bregus iawn oedd ei iechyd ar hyd ei gyfnod yn y Coleg a bu farw yn 1947. Roedd yn ewythr i'r Parch. D R Griffiths ac felly mae'n perthyn i nifer o aelodau cyfredol y Tabernacl. Mae'n debyg mai gwaeledd ei ewythr gwnaeth ysbrydoli'r emyn am Grist y Meddyg, *O Grist, Ffisigwr mawr y byd* a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1952.

## 10. Parch. D. Myrddin Davies, 1965

Ganwyd yn y Garnant ar ddiwedd yr Ugeinfed ganrif ac wedi gadael ysgol fe ddilynodd ei dad i'r pwll glo. Wedi astudio yng Ngholeg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd fe ordeiniwyd yn Seion, Cwmaman cyn mynd i Fethel, Aberystwyth am flwyddyn yn unig cyn derbyn galwad i Gaerdydd. Fel gwragedd Nathaniel Thomas a Charles Davies roedd ei wraig yntau Irene yn amlwg iawn ym mywyd y Tabernacl ac yn ddarlithydd Addysg dra dylanwadol yn ei chyfnod. Fe Gymreigiwyd yr eglwys cryn dipyn yn ystod ei weinidogaeth ac roedd Myrddin ac Irene yn gryf o blaid sefydlu'r ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Ef oedd y cyntaf i bregethu yn y Gymraeg ar y teledu yn y darlleniad Cymraeg cyntaf a recordiwyd yn y Tabernacl ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 1953. Bu'n weinidog yn ystod cyfnod heriol yr Ail Ryfel Byd a bu'n llywyddu'r canu cynulleidfaol a gynhaliwyd bob nos Sul yn ystod y rhyfel.

## 11. Parch. J. Williams-Hughes, 1968

Mae'n debyg bod y Parch. Charles Davies wedi cynllunio am sbel mai Williams-Hughes fyddai ei olynydd yn y Tabernacl. Yn frodor o Landŵr yn Abertawe roedd ei deulu yn amlwg iawn yn hanes Capel Dinas Noddfa. Fe lwyddodd yn academaidd ac fe astudiodd ym Mangor a Rhydychen. Tra ym Mangor fe gyfarfu a merch gweinidog Penuel, Bangor a'i phriodi tra'n weinidog yn St Alban's. Bregus oedd ei iechyd yn y cyfnod yma a symudodd i'r Bermo gan gymryd gofal eglwys fechan yno. Wedi cyfnod byr gydag eglwys Saesneg yn Aberystwyth fe ddaeth yn gyd-weinidog i Charles Davies yn y Tabernacl yn 1926. Y bwriad oedd cyd-weinidogaethu am ddwy flynedd er mwyn ceisio cadw'r aelodau oedd wedi symud i'r maestrefi. Nid felly y bu gan i Charles Davies farw o fewn ychydig fisoedd. Yn yr un cyfnod bu farw rhai o hoelion wyth y Tabernacl gan gynnwys y cyn-lywyddion Alfred Thomas a William Edwards. Yn 1936 fe dderbyniodd yr alwad i Goleg y Bedyddwyr ym Mangor cyn cael ei benodi yn bennaeth yn 1943. Wedi ei ymddeoliad yn 1959 fe symudodd yn ôl i Gaerdydd am gyfnod gan ymaelodi eto yn y Tabernacl. Roedd yn berson ffraeth iawn ac mae hynny'n amlwg o'i hunangofiant *Troeon yr Yrfa*

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## 12. Parch. Dafydd G. Davies, 1987

Ganwyd ym Mhwllheli ond fe'i magwyd yng Nghastell Newydd Emlyn, lle'r oedd ei dad yn weinidog amlwg a'i fam yn athrawes Gymraeg. Wedi astudio ym Mangor ac yn Rhydychen fe aeth yn weinidog i Sir Fôn cyn ymuno â staff Coleg y Bedyddwyr  yn 1955 a maes o law ei ddyrchafu yn Brifathro yn 1970. Yn ystod y cyfnod yma buodd yn aelod yn y Tabernacl cyn gadael yn 1995 i gynorthwyo Eglwys Tonyfelin. Roedd yn rhan o Banel Cyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd a thestun ei Undeb oedd Galwad y Gair.

## 13. Ei Anrhydedd Dewi Watkin Powell, 1994

Un o blant y Tabernacl oedd Dewi a bu'n aelod hyd ei oes tan ymddeol i Gricieth. Ei fam oedd y fenyw gyntaf i gael ei hethol yn ddiacon yn y Tabernacl yn 1949 ac fe ymunodd Dewi â'r sedd fawr yn 1961. Yn ystod ei oes roedd Dewi yn un o bobl fwyaf dylanwadol y Gymru Gymraeg. Yn Farnwr blaenllaw, bu hefyd yn gefnogwr mawr i genedlaetholdeb a'r iaith Cymraeg. Fe gafodd ei fedyddio yn gwisgo lifrai'r Urdd. Addas iawn oedd testun ei Lywyddiaeth sef Credo a Chenedl.

## 14. Illtyd Lloyd, 1997

Brodor balch o Gwmafan oedd Illtyd Lloyd a dreuliodd cyfnodau yn Hwlffordd, Aberhonddu ac Abertawe cyn setlo yng Nghaerdydd. Bu'n swyddog mewn nifer o eglwysi ac yn y Tabernacl roedd yn ddiacon a Thrysorydd medrus iawn. Yn ei waith beunyddiol bu'n Bennaeth dros dro ar un o ysgolion uwchradd mwyaf blaenllaw Caerdydd cyn ei apwyntio i'r arolygiaeth a'i ddyrchafu yn Brif Arolygydd Cymru. Roedd yr enwad yn bwysig iddo a buodd yn Drysorydd Coleg y Bedyddwyr Caerdydd a'r Undeb am nifer o flynyddoedd. Yn y Tabernacl roedd ganddo ddiddordeb mawr yng ngwaith y bobl ifanc a buodd yn allweddol yn annog y genhedlaeth nesaf o arweinwyr yr eglwys. Addas iawn felly oedd testun ei Undeb sef Adeiladu'r Eglwys.

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## 15. Parch. Denzil John, 2004

Yn un o blant Blaenconin, Eglwys Tonyfelin oedd maes cyntaf Denzil cyn dilyn yn llwybrau Christmas Evans a derbyn yr alwad i'r Tabernacl. Yno fe wasanaethodd am 30 o flynyddoedd ac mae'n parhau yn aelod gweithgar. Cerdded y Pontydd oedd thema ei undeb a buodd trwy ei weinidogaeth yn un a oedd yn barod i adeiladu pontydd ag eraill. Mae Denzil yn Gadeirydd Cymdeithas Heddwch yr Undeb a hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas yr Undeb.

## 16. Gwenallt Rees, 2009

Yn fab y mans, yn Llansteffan y magwyd Gwenallt. Fe gafodd yrfa ddisglair. Fe ddaeth yn bennaeth ysgol yn ei ugeiniau, yn ddarlithydd addysg yng Ngholeg y Drindod ac yn Arolygydd Ysgolion. Bu'n aelod a swyddog blaenllaw yn Ystradgynlais a Chaerfyrddin ac fe etholwyd yn ddiacon yn y Tabernacl yn 1994. Bu'n Ysgrifennydd yr eglwys mewn cyfnod heriol iawn pryd roedd y cyngor yn ceisio gwrthod mynediad car i'r Tabernacl. Bu doethineb Gwenallt, Illtyd, Denzil, Dewi Watkin ac eraill yn hanfodol yn ystod y frwydr lwyddiannus. Ers ei gyfnod yng Ngholeg y Drindod mae Gwenallt wedi dal cysylltiad agos â Lesotho ac oherwydd ef a'i wraig Non mae'r Tabernacl wedi ei gyfeillio ag Eglwys ym mhrifddinas y wlad.

## 17. Parch. Peter Dewi Richards, 2017

Ymddeol i Gaerdydd wnaeth Peter Dewi yn 2015 wedi gweinidogaeth lwyddiannus yng Ngwm Gwaun, Glanaman, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Mae doethineb a charedigrwydd Peter yn amlwg i bawb. Mae'n weinyddwr ac yn fugail wrth reddf. Roedd yn allweddol yn uno tri o Gapeli Cymraeg yng nghanol Llundain gan sicrhau parhad i'r weinidogaeth Gymraeg yno. Y Ffin a'r Fflam oedd testun ei Undeb ac mae Peter wedi cynnal sawl fflam ar hyd ei weinidogaeth. Bu hefyd yn Llywydd ar adain Saesneg yr Undeb.

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## 18. Bill Davies, 2024

Un arall a wnaeth ymddeol i Gaerdydd wedi gyrfa lwyddiannus y maes Adnoddau Dynol yw Bill Davies. Yn frodor o Borthmadog fe briododd â Ruth a oedd yn un o deulu blaenllaw Penuel Bangor gan ddod ei hun yn un o swyddogion ffyddlonaf yr Eglwys. Mae wedi eistedd ar sawl fwrdd cenedlaethol ac mae'r Undeb yn ffodus iawn o'i gyngor doeth ar nifer o faterion. Wedi symud i Gaerdydd mae Bill a Ruth wedi ymdaflu eu hunain i fywyd y Tabernacl ac yn fuan iawn fe etholwyd Bill yn ddiacon. Mae Bill yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb.

## 19. Rob Nicholls, 2026

Yn frodor o Benclawdd fe magwyd Rob ym Methesda, Abertawe, eglwys a oedd yn deillio nôl i'r gwreiddiau yn Ilston. Bu cewri'r enwad yn ddylanwad mawr arno fel plentyn ac roedd yr alwad yno o oedran ifanc. Gyrfa lwyddiannus ym myd addysg a chyfryngau daeth a Rob i Gaerdydd yn 1997. Fe'i hetholwyd yn ddiacon yn 2004 ac yn fuan daeth yn Ysgrifennydd y Capel. Tyfodd yr alwad gyda'r blynyddoedd ac yn 2015 fe symudodd i Eglwys Gymraeg Canol Llundain fel olynydd i Peter Dewi Richards.

## 20. Parch. Ddr. Rosa Hunt, 2027

Dyma ni wedi cyrraedd, o'r diwedd, y fenyw gyntaf o'r Tabernacl i fod yn Llywydd yr Undeb. Gellid yn rhwydd meddwl am eraill o fenywod y Tabernacl yn y gorffennol a byddai wedi bod yn Llywyddion penigamp. Ysywaeth, ni ddigwyddodd hynny ond mae'r Tabernacl heddiw yn ymfalchïo yn Rosa. Mae'n siŵr mai Rosa yw'r person cyntaf a anwyd tu fas i Gymru a Lloegr i ddod yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Wedi cyfnodau yn gweinidogaethu yng Nghaerffili, Tonteg ac fel Prifathro Coleg y Bedyddwyr fe dderbyniodd Rosa yr alwad i'r Tabernacl yn 2022.

# LLYWYDDION Y TABERNACL

## Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr

Yn ogystal â William Edwards, mae dau arall a buodd yn aelodau yn y Tabernacl wedi bod yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr.

### Parch. Thomas Thomas, 1872

Fe fagwyd ar fferm Pont Lecwydd ar gyrion Caerdydd nepell o safle stadiwm pêl-droed Caerdydd heddiw. Fe'i bedyddiwyd yn 1818 pan yn 14 mlwydd oed gan y Parch. Griffith Davies, gweinidog cyntaf y Tabernacl. Yno dechreuodd bregethu am y tro cyntaf ac roedd yn boblogaidd iawn fel cyw pregethwr. Wedi astudio yn y Fenni a Llundain, fe ordeiniwyd yn weinidog yn Llundain cyn symud i fod yn weinidog ym Mhont-y-pŵl ac fel ail bennaeth coleg newydd y Bedyddwyr. Ymddeolodd o'r coleg yn 1876, gan symud i fyw yng Nghaerdydd ac ail-ymaelodi yn y Tabernacl. Ef oedd y Cymro Cymraeg cyntaf i ddod yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr.

### Parch. Ddr. Thomas Phillips, 1916

Fe'i magwyd yn eglwys hynafol Rhydwilym ac wedi astudio yn Llangollen, Bangor a Llundain fe aeth yn weinidog i Kettering a Norwich cyn dod yn weinidog ar eglwys ddylanwadol Bloomsbury yng nghanol Llundain yn 1905. Daeth yn brifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn 1928 tan ei farwolaeth yn 1936. Yn ystod y cyfnod yma bu'n aelod yn y Tabernacl. Mae'n amlwg o hunangofiant Williams-Hughes bod y Prifathro yn dipyn o dynnwr coes.

### Cysylltiadau anuniongyrchol â'r Tabernacl

1. W. R Watkin, 1940 a 1941– bu ei ferch Enid Watkin yn aelod a'i frawd yr Athro Morgan Watkin yn ddiacon.
2. Clement Davies, 1960 – bu ei fab y Parch. Dafydd Davies yn aelod ynghyd a'i wyrion Gwilym, Gwen a Megan.
3. Wynne Samuel,1961 – bu ei weddw Phyllis yn aelod a'i ferch Sian yn parhau'n aelod
4. John Hughes,1964 – bu ei frawd Arwel Hughes yn ddiacon ac yn organydd a mae ei nith, Delun Callow yn parhau'n aelod.
5. W. M Rees, 1972 – bu ei weddw Edna May yn aelod a'i fab Hywel yn ddiacon ac yn organydd
6. T.M. Bassett, 1979 – mae ei ferch Ruth yn aelod
7. W.H. Rowlands, 1981 – mae ei wyres Lowri yn aelod
8. Milton Jenkins, 1995 – mae ei ferch Eira a'i wyrion Steffan a Marged yn aelodau
9. Dafydd Henri Edwards, 1999 – mae ei weddw Enid a'i wyres Beca yn aelodau a'i ferch Gwenllian a'i ŵyr Noa yn ddiaconiaid

UNDEB
BEDYDDWYR
CYMRU
·
BUW

# UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

Baptist Union of Wales · 2026

## *'Rhodiwch Mewn Cariad'*

EFFESIAID 5:2

**OEDFA ILSTON**

**19 Medi 2026 am 2.00 yp**

**MALTA**

**6–13 Chwefror 2027**